| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 13 Tachwedd 2014 |
| **TEITL** | Cynigion Arbedion Effeithlonrwydd |
| **AELOD** | Cyng. Peter Read |
| | |

**1. Cefndir a chyd-destun**

1.1 Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor rydym yn taflunio bwlch ariannol tybiedig o tua £50m dros y pedair blynedd 2014/15 - 2017/18. Gyda chynnydd tybiedig o 3.5% yn y Dreth Gyngor ac arbedion sydd eisoes ar y gweill, byddai hyn yn gadael bron i £34m o fwlch i'w ddarganfod.

1.2 Atgoffir y Pwyllgor Craffu o'r strategaeth a grybwyllwyd gan y Cabinet i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth oedd yn rhagweld cyfarch y bwlch yma drwy:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar beth sy'n ymarferol. |
| Y Comisiwn ar Lywodraethu | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymryd i ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr sydd ar ôl |

1.3 Mae'r adrannau bellach wedi cyflwyno cynigion effeithlonrwydd / rheoli'r galw yn unol â'r targedau a osodwyd iddynt gan y Cabinet ar y 1af o Ebrill.

1.4 Cytunwyd bryd hynny y byddai cyfle am waith manwl drwy Weithgor Craffu cyn eu cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad.

1.5 I'r perwyl hwn, fe gytunwyd yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24ain o Ionawr i sefydlu gweithgor o'u plith (h.y. y Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio).

1.6 Gan gofio mai arbedion effeithlonrwydd / rheoli'r galw yr ydym yn sôn amdanynt yma fe ddylai'r effaith ar ganlyniadau i drigolion fod yn llai na'r hyn y byddwn yn ei weld mewn unrhyw gyfundrefn toriadau.

## 2. Mewnbwn Aelodau

2.1 Fe gynhaliwyd Gweithdy i holl aelodau'r Cyngor ar yr 8fed a'r 13eg o Hydref ble roedd cyfle i aelodau gyflwyno sylwadau a / neu bryderon am y cynigion i'r Gweithgor Craffu eu hystyried. Fe fynychodd 35 o aelodau. Roedd hyn yn caniatáu i'r gweithgor fod yn gynhwysol yn eu rôl gyda'u cyd-aelodau i graffu effaith y cynigion.

2.2 Yn ogystal, ar gyfer yr aelodau na fu'n bosib i fynychu, fe yrrwyd pecyn atynt hwythau gyda chyfle i godi sywladau a / neu bryderon.

## 3. Gweithgor Craffu Arbedion

3.1 Fe gynhaliwyd 6 cyfarfod hanner diwrnod i drafod y cynigion effeithlonrwydd fesul adran rhwng y 14eg o Hydref a'r 3ydd o Dachwedd.

3.2 Rhoddodd y gweithgor sylw i'r holl sylwadau a gasglwyd o'r gweithdai a gynhaliwyd i'r aelodau gan ystyried goblygiadau gweithredu'r cynigion ac amlygu unrhyw ystyriaethau oedd angen dwyn i sylw'r Cabinet o ran effaith ar bobl Gwynedd cyn eu cyflwyno am benderfyniad y Cabinet.

3.3 Fe grynhoir argymhellion y Gweithgor Craffu i'r Pwyllgor Craffu hwn yn Atodiad 1 ac fe amgeir gopi i becyn y Gweithdai Aelodau er gwybodaeth yn Atodiad 2.

## 4. Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ystyried a chytuno unrhyw argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet wneud ei benderfyniad ar yr 16eg o Ragfyr.